

# SESIWN DDAEARYDDIAETH 2: BYLCHAU RHWNG GWLEDYDD

Ystod oedran: 11-16 oed

<p><b>Amlinelliad</b> Bydd dysgwyr yn ystyried gwahanol ffyrdd o fesur datblygiad a thrafod manteision a chyfyngiadau rhai dangosyddion datblygiad gwahanol. Bydd dysgwyr yn defnyddio gêm gardiau 'Datblygiad' i gymharu gwerthoedd dangosyddion datblygiad ar gyfer gwahanol wledydd a thrafod y rhesymau posibl pam mae rhai gwledydd yn fwy 'datblygedig' nag eraill. Bydd dysgwyr wedyn yn defnyddio gwefan <i>Gapminder</i> (<a href="http://www.gapminder.org">www.gapminder.org</a>) i nodi enghreifftiau o anghydraddoldebau rhwng Ethiopia, India, Periw, Fiet-nam (y pedair gwlad Bywydau Ifanc) a'r DU. Yn olaf bydd dysgwyr yn lliwio mapiau o'r byd i ddangos rhai o'r bylchau hyn rhwng gwledydd.</p>		
<p><b>Amcanion Dysgu</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adnabod bod mesur 'datblygiad' yn gymhleth a bod yna nifer o wahanol ffyrdd y gellir ei fesur, yn dibynnu ar sut y mae'r term yn cael ei ddiffinio.</li> <li>• Datblygiad sgiliau daearyddol wrth ddadansoddi a dehongli ffynonellau data gwahanol.</li> <li>• Bod yn ymwybodol o rai anghydraddoldebau rhwng gwledydd sy'n bodoli rhwng y pedair gwlad Bywydau Ifanc a'r DU.</li> <li>• Nodi anghydraddoldebau rhwng gwledydd gan ddefnyddio rhai dangosyddion datblygiad.</li> </ul>	<p><b>Canlyniadau dysgu</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd dysgwyr yn trafod manteision a chyfyngiadau rhai dangosyddion datblygiad gwahanol.</li> <li>• Bydd dysgwyr yn chwarae gêm gardiau datblygiad i gymharu pa mor 'ddatblygedig' yw rhai gwledydd gwahanol yn y byd yn ôl rhai o'r dangosyddion hyn.</li> <li>• Bydd dysgwyr yn defnyddio ffynonellau data gwahanol i nodi a thrafod enghreifftiau o anghydraddoldebau rhwng gwledydd.</li> </ul>	
<p><b>Cwestiynau allweddol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pa ddangosydd yn eich barn chi yw'r mesur gorau o ddatblygiad a pham?</li> <li>• A oes unrhyw ffyrdd eraill y credwch y dylai datblygiad gael ei fesur?</li> <li>• Pa fylchau rhwng gwledydd wnaethoch chi sylwi arnynt?</li> <li>• Pa enghreifftiau o anghydraddoldeb rhwng gwledydd wnaethoch chi ddod o hyd iddynt?</li> <li>• Ydych chi'n meddwl bod yr anghydraddoldebau hyn yn deg? Pam felly?</li> </ul>	<p><b>Adnoddau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Sioe sleidiau Daearyddiaeth A</i> (Sleidiau 9-17)</li> <li>• Taflenni adnoddau:             <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <i>Dangosyddion gêm gardiau datblygiad / gêm gardiau datblygiad 1 i 4</i></li> <li>○ <i>Archwilio dangosyddion datblygiad / Mesur datblygiad / Mesur dangosyddion datblygiad</i></li> </ul> </li> <li>• Taflenni gweithgareddau:             <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <i>Meddwl am ddatblygiad</i></li> <li>○ <i>Bylchau rhwng gwledydd / Mapio bylchau rhwng gwledydd</i></li> </ul> </li> </ul>	
<p><b>Cysylltiadau â'r cwricwlwm</b></p>		
<p><b>Lloegr</b> <b>Daearyddiaeth CA3</b> <i>Dylid addysgu'r disgyblion i:</i> <b>Nodau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deall y prosesau sy'n arwain at nodweddion daearyddol dynol allweddol y byd, sut mae'r rhain yn gyd-ddibynnol a sut y maent yn dod ag amrywiaeth ofodol a newid dros amser.</li> <li>• Bod yn gymwys yn y sgiliau daearyddol sydd eu hangen i ddehongli ystod o ffynonellau gwybodaeth daearyddol a chyfleu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd.</li> </ul> <p><b>Gwybodaeth am leoliad</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymestyn eu gwybodaeth leoliadol a dyfnhau ymwybyddiaeth ofodol o wledydd y byd.</li> </ul> <p><b>Gwybodaeth am ie</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deall tebygrwydd, gwahaniaethau a chysylltiadau daearyddol rhwng lleoedd drwy astudio daearyddiaeth ddynol a ffisegol rhanbarth yn Affrica a rhanbarth yn Asia.</li> </ul>	<p><b>Cymru</b> <b>Daearyddiaeth CA3</b> <b>Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Egluro achosion ac effeithiau prosesau ffisegol a dynol a sut mae'r prosesau'n cydberthyn.</li> </ul> <p><b>Ystod</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Astudio'r byd cyfoethog a thlawd: datblygiad economaidd mewn gwahanol leoliadau/gwledydd.</li> <li>• Gofyn - beth yw'r materion daearyddol i bobl sy'n byw yn y lleoliad hwn?</li> </ul> <p><b>Fframwaith rhifedd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygiad rhesymu rhifiadol.</li> <li>• Defnyddio sgiliau data.</li> </ul>	<p><b>Yr Alban</b> <b>Astudiaethau cymdeithasol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gallaf gymharu'r gwahaniaethau cymdeithasol ac economaidd rhwng gwledydd mwy datblygedig a llai datblygedig yn economaidd ac yn medru trafod y posibiladau ar gyfer lleihau'r gwahaniaethau hyn. <b>SOC 3-11a</b></li> <li>• Gallaf ddisgrifio sut mae cyd-ddibyniaeth gwledydd yn effeithio ar lefelau datblygiad, gan ystyried yr effeithiau ar fywydau pobl. <b>SOC 3-19a</b></li> <li>• Gallaf egluro pam y gallai grŵp yr wyf wedi'i nodi brofi anghydraddoldeb ac awgrymu ffyrdd y gellid mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hyn. <b>SOC 3-16a</b></li> </ul>

Sylwer:

- *Cyfanswm yr amser sydd ei angen i gwblhau'r holl weithgareddau yn y sesiwn hon yw dros ddwy awr. Fel gyda sesiynau daearyddiaeth eraill, efallai y byddwch yn penderfynu hepgor rhai gweithgareddau yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael a gwybodaeth, dealltwriaeth ac anghenion presennol eich dysgwyr. Bwriad y deunydd yw cefnogi eich addysgu yn hytrach na'i arwain. Efallai y bydd angen mewnbwn addysgu ychwanegol i ddatblygiad gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr o rai o'r cysyniadau hyn.*
- *Ar gyfer y sesiwn hon, bydd angen i ddysgwyr ddeall y term 'anhydraddoldeb', a gyflwynwyd yn y sesiwn gyflwyno a Sesiwn Ddaearyddiaeth 1.*

## Gweithgaredd 2.1 (20 mun)

Mesur datblygiad

Sylwer: Mae'r gweithgaredd hwn yn bron yr un fath â Gweithgaredd Mathemateg 2.1.

- Dangoswch sleid 10 ac eglurwch fod ymchwilyr Bywydau Ifanc wedi casglu llawer o ddata ym mhob un o'r pedair gwlad (Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam) i gael gwybod sut beth yw ansawdd bywyd i bobl ifanc o rai cymunedau tlotach. Gan fod yr astudiaeth wedi cael ei chynnal dros 15 mlynedd, mae'r ymchwilyr hefyd wedi gallu gweld sut mae eu hansawdd bywyd yn newid.
- Eglurwch fod pobl yn aml yn siarad am ba mor 'ddatblygedig' yw gwlad fel ffordd o ddisgrifio ei safonau byw. Cafodd dysgwyr eu cyflwyno i'r term 'datblygiad' a'r Nodau Datblygiad Cynaliadwy yn y sesiwn gyflwyno. Atgoffwch y dysgwyr fod gan wahanol bobl wahanol farn am yr hyn y mae datblygiad yn ei olygu. Mae crynodeb o'r diffiniad o ddatblygiad a ddefnyddir gan yr adnodd hwn ar sleid 11. Am wybodaeth bellach ar ddatblygiad, gweler *Nodiadau cefndir i athrawon*.
- Gofynnwch i'r dysgwyr am syniadau am ffyrdd o fesur pa mor 'ddatblygedig' yw gwlad, neu ansawdd bywyd y bobl sy'n byw yno. Dangoswch sleidiau 12 a 13 ac egluro bod y rhain yn enghreifftiau o rai o'r dangosyddion datblygiad sy'n cael eu defnyddio.
- Trefnwch y dysgwyr yn barau neu grwpiau o dri a rhoi copi o *Archwilio dangosyddion datblygiad* i bob grŵp. Gofynnwch i'r dysgwyr dorri allan y dangosyddion a'u didoli i gategorïau. Gofynnwch iddynt feddwl am eu syniadau eu hunain ar gyfer y gwahanol gategorïau neu fel arall rhwch gymorth iddynt drwy awgrymu categorïau megis pobl, yr amgylchedd, yr economi ac iechyd.
- Yna dylai'r dysgwyr drafod y cwestiynau ar sleid 14. Fel arall gallai dysgwyr gael copi o *Meddwl am ddatblygiad* a chofnodi eu hatebion yn unigol neu yn eu grwpiau.
- Rhannwch syniadau'r dysgwyr fel dosbarth cyfan. Nodwch fod llawer o ffyrdd gwahanol o fesur datblygiad. Pwysleiswch sut mae'r dangosyddion a ddefnyddir yn gysylltiedig â diffiniadau o ddatblygiad ac nad yw pobl yn cytuno ar hyn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r 20fed ganrif, roedd datblygiad yn cael ei fesur o ran CMC yn unig (incwm cenedlaethol), naill ai'n gyffredinol neu y pen. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o bobl wedi dod i weld a mesur datblygiad mewn termau llawer ehangach, er enghraifft o ran iechyd, addysg a'r amgylchedd y mae pobl yn byw ynddo. Mae amrywiaeth o ddangosyddion eraill yn cael eu defnyddio yn awr, megis y Mynegai Datblygiad Dynol a'r Mynegai Planed Hapus. Am ragor o wybodaeth, gweler *Nodiadau cefndir i athrawon*.

## Gweithgaredd 2.2 (30 mun)

### Gêm gardiau Datblygiad

#### Sylwer:

Mae'r gweithgaredd hwn yr un fath â Gweithgaredd Mathemateg 2.2. Gall y gêm gael ei chwarae mewn grwpiau o bedwar neu fel dosbarth cyfan. Bydd angen i chi argraffu a thorri allan cyfres o gardiau Datblygiad naill ai ar gyfer pob grŵp neu un set ar gyfer y dosbarth cyfan.

Mae'r data o'r 32 o wledydd sy'n ymddangos ar y cardiau Datblygiad yn cael eu darparu yn y daenlen Cymharu dangosyddion datblygiad. Mae'r dysgwyr yn ymchwilio i'r data hyn yn fwy manwl yng Ngweithgaredd Mathemateg 2.3.

- Esboniwch fod dysgwyr yn mynd i chwarae gêm o 'gardiau Datblygiad' i archwilio pa mor 'ddatblygedig' yw rhai gwledydd gwahanol ar draws y byd.
- Siaradwch am ystyr pob dangosydd sy'n ymddangos ar y *cardiau Datblygiad*. Mae disgrifiad o bob dangosydd yn y *dangosyddion cardiau Datblygiad*. Ar gyfer pob dangosydd cytunwch fel dosbarth ai'r sgôr uchaf neu isaf sydd orau:
  - Hyd oes disgwylidig (sgôr uchaf yw'r orau)
  - CMC y pen (sgôr uchaf yw'r orau)
  - Mynegai Datblygiad Dynol (sgôr uchaf yw'r orau)
  - Blynnyddoedd disgwylidig o addysg (sgôr uchaf yw'r orau)
  - Mynediad at ddŵr: % (sgôr uchaf yw'r orau)
  - Marwolaethau babanod: marwolaethau fesul 1,000 o enedigaethau byw (sgôr isaf yw'r orau)
  - Mynediad at drydan: % (sgôr uchaf yw'r orau)
  - Allyriadau CO<sub>2</sub> y pen (sgôr isaf sydd orau).
- *Fersiwn grŵp o bedwar*
  - Deliwr yn dosbarthu'r cardiau fel bod gan y chwaraewyr wyth yr un.
  - Chwaraewr ar ochr chwith y deliwr yn penderfynu pa un o'r dangosyddion y maent yn ei chwarae.
  - Chwaraewr yn galw enw ei wlad a'i sgôr.
  - Chwaraewr yn galw'r sgôr orau sydd ganddynt yn y categori hwnnw.
  - Chwaraewr â'r sgôr uchaf/isaf (gan ddibynnu ar ba un sydd orau) yn y categori hwnnw yn cymryd y cardiau.
  - Dylai'r dysgwyr ddechrau deall bod cael y sgôr waethaf am ddangosydd yn gallu bod yn rhwystredig.
- *Fersiwn dosbarth cyfan*
  - Dosbarthwch y cardiau ymhlith y dysgwyr.
  - Gofynnwch i'r dysgwr gyda'r hyd oes disgwylidig uchaf i sefyll ar un ochr o'r ystafell ddosbarth.
  - Yna gofynnwch i'r dysgwyr eraill sefyll mewn llinell yn nhrefn eu hyd oes disgwylidig.

- Ar ôl iddynt wneud hyn, gofynnwch i'r dysgwyr a allant gofio lle mae'r gwledydd penodol ar hyd y llinell.
- Newidiwch a chwarae ar gyfer CMC y pen. Cyn i'r dysgwyr ddechrau eto, gofynnwch:
  - *Pa wledydd ydych chi'n disgwyl i fod yn agos at flaen y llinell?*
  - *Pa wledydd ydych chi'n disgwyl i fod yn agos at y cefn?*
- Stopiwch y gêm a gofyn i'r dysgwyr ystyried y cwestiynau ar sleid 15 wrth iddynt barhau i chwarae'r gêm gyda'r dangosyddion eraill.

Rhowch amser ar ddiwedd y gêm i ddysgwyr rannu a myfyrio ar eu syniadau a'u sylwadau am chwarae'r gêm a'u syniadau am y cwestiynau ar sleid 15.

### Gweithgaredd 2.3 (45 mun)

*Mesur bylchau rhwng gwledydd*

*Sylwer: Bydd angen mynediad at gyfrifiadur a'r Rhyngrwyd ar y dysgwyr ar gyfer y gweithgaredd hwn. Os nad yw mynediad ar gael i'r dosbarth cyfan, gellir dangos sut i ddefnyddio gwefan Gapminder yn y dosbarth a gall y gweithgareddau annibynnol gael eu gosod ar gyfer gwaith cartref.*

- Atgoffwch y dysgwyr y gall anghydraddoldeb fodoli rhwng gwledydd ac o fewn iddynt (gweler *Sesiwn Ddaeryddiaeth 1*). Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am ffyrdd y gall gwledydd fod yn anghyfartal o'u cymharu â'i gilydd. Cofnodwch eu syniadau ar y bwrdd. Eglurwch fod dysgwyr yn y sesiwn hon yn mynd i ddarganfod mwy am fylchau rhwng gwledydd.
- Dangoswch sleid 16. Eglurwch fod y map o'r byd yn dangos dosbarthiad cyfoeth cyfartalog fesul oedolyn o gwmpas y byd. Sicrhewch fod eich dysgwyr yn glir ynghylch y gwahaniaeth rhwng incwm a chyfoeth trwy egluro mai incwm yw'r swm o arian y bydd person yn ei gael yn gyfnewid am waith neu fuddsoddiadau, tra bod cyfoeth yn cael ei gyfrifo fel gwerth asedau ariannol person (megis tai a thir) ar ôl i unrhyw ddyledion gael eu tynnu. Rhowch ychydig o funudau i'r dysgwyr i edrych ar y map, ac yna gofynnwch y cwestiynau canlynol iddynt:
  - *Pa ranbarthau sydd â'r cyfoeth cyfartalog uchaf yr oedolyn?*
  - *Pa ranbarthau sydd â'r cyfoeth cyfartalog isaf yr oedolyn?*
  - *Pam ydych chi'n meddwl bod cyfoeth yn uwch mewn rhai gwledydd nag eraill?*
  - *A ydych yn credu bod hynny'n deg?*
  - *Sut ydych chi'n credu y mae dosbarthiad cyfoeth y byd wedi newid yn y gorffennol?*
  - *Sut ydych chi'n meddwl y bydd dosbarthiad cyfoeth y byd yn newid yn y dyfodol?*
- Dangoswch sut i ddefnyddio'r wefan *Gapminder* ([www.gapminder.org](http://www.gapminder.org)). Mae'r wefan hon yn darparu mapiau a graffiau i ddangos sut y mae gwahanol ddangosyddion datblygiad wedi newid dros amser a sut mae'r dangosyddion hyn yn amrywio mewn gwahanol wledydd a rhanbarthau'r byd. Os nad ydych yn gyfarwydd â'r wefan, efallai yr hoffech chi glicio ar *Sut i ddefnyddio* am diwtorial yn egluro'r gwahanol swyddogaethau a'r offer sydd ar gael.
- Eglurwch fod dysgwyr yn mynd i ddefnyddio adran *Gapminder World* y wefan i edrych ar enghreifftiau o anghydraddoldebau rhwng Ethiopia, India, Periw, Fiet-nam (y pedair gwlad Bywydau Ifanc) a'r DU.

- Trefnwch y dysgwyr yn barau a rhoi i bob pâr gyfrifiadur a mynediad at wefan Gapminder. Gofynnwch i'r dysgwyr:
  - Gicio ar *Gapminder World*.
  - Clicio ar *Map*.
  - Dewis pedair gwlad Bywydau Ifanc (Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam) a'r DU oddi ar y rhestr ar yr ochr dde.
  - Symud y marciwr trionglog o dan y rhestr o wledydd draw i'r chwith fel bod y gwerthoedd ar gyfer y gwledydd nad ydynt wedi'u dewis yn dryloyw.
  - Clicio ar *Size* a dewis dangosydd o'r rhestr.
- Dywedwch wrth y dysgwyr bod maint y swigen yn adlewyrchu gwerth cymharol y dangosydd ar gyfer y wlad honno. Bydd hofran dros y label gwlad neu'r swigen ar y sgrin yn dangos gwerth y dangosydd dan *Size*. *Sylwer: Gallai dysgwyr weld bod enw gwlad (er enghraifft 'India') yn cuddio un o'r swigod. Os felly, gallant glicio a llusgo ar yr enw i'w symud allan o'r ffordd.*
- Eglurwch ei bod yn bosibl i ddewis data o wahanol flynyddoedd drwy symud y marciwr dan y map. Dywedwch wrth y dysgwyr y dylent ddewis y flwyddyn ddiweddaraf sy'n darparu data ar gyfer pob un o'r pum gwlad.
- Dylai dysgwyr ddewis dangosyddion gwahanol i weld sut mae'r gwledydd yn cymharu. Dylent gofnodi trefn gymharol y gwledydd ar gyfer pob dangosydd yn y tabl *bylchau rhwng gwledydd*.
- Eglurwch efallai na fydd data ar gyfer pob un o'r dangosyddion datblygiad bob amser ar gael ar gyfer pob un o'r gwledydd. Trafodwch y rhesymau posibl am ddiffyg data, megis diffyg seilwaith mewn cymunedau tlotach a mwy ynysig ar gyfer casglu data dibynadwy.
- Os bydd dysgwyr yn dewis dangosydd lle nad oes data ar gael ar gyfer yr holl wledydd dylent gofnodi'r gwledydd y mae data ar gael ar eu cyfer yn y tabl ar *Fylchau rhwng gwledydd*. Anogwch y dysgwyr i wirio bod yr holl wledydd wedi'u dewis pan fyddant yn dewis dangosydd newydd i ymchwilio.
- Rhoch amser ar ddiwedd y gweithgaredd i ddysgwyr rannu a thrafod eu canfyddiadau:
  - *Pa enghreifftiau o anghydraddoldeb rhwng gwledydd wnaethoch chi ddod o hyd iddynt?*
  - *A gawsoch chi eich synnu gan unrhyw ran o'r data? Pa ddata a pham?*
  - *Beth ydych chi'n meddwl yw'r rhesymau dros yr anghydraddoldebau hyn?*
  - *Ydych chi'n meddwl bod yr anghydraddoldebau hyn yn deg? Pam felly?*

## Gweithgaredd 2.4 (30 mun)

### Mapio bylchau rhwng gwledydd

*Sylwer: Mae rhan gyntaf y gweithgaredd hwn yr un fath â Gweithgaredd Fathemateg 5.1.*

- Trefnwch y dysgwyr yn barau a rhowch i bob pâr gopïau o *Mesur datblygiad*. Mae copi o'r tabl ar sleid 17 ac mae disgrifiad o bob dangosydd yn *Mesur dangosyddion datblygiad*. Eglurwch fod y tabl hwn yn dangos cyfanswm poblogaeth a data ar gyfer dangosyddion datblygiad penodol ar gyfer pob un o'r pedair gwlad Bywydau Ifanc (Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam ) a'r DU. Dywedwch fod y data hwn yn cael ei gyfrifo gan Fanc y Byd, sefydliad sy'n rhoi benthyg arian i

wledydd gwahanol i gefnogi twf a datblygiad economaidd, er enghraifft prosiectau seilwaith mawr neu raglenni addysg.

- Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y tabl *Mesur datblygiad*. Gofynnwch gwestiynau am y data, megis:
  - *Beth yw'r hyd oes disgwylidig ym Mheriw?*
  - *Pa ganran o'r boblogaeth sydd â mynediad at drydan yn Ethiopia?*
  - *Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y nifer o ddefnyddwyr y Rhyngwryd y 100 o bobl yn y DU a'r nifer yn India?*
  - *Pa wlad sydd â'r gyfradd marwolaethau babanod isaf?*
- Rhowch gopi A3 i bob dysgwr o *Mapio bylchau rhwng gwledydd*. Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis un o'r dangosyddion yn y tabl *Mesur datblygiad*. Yna dylent gwblhau'r allwedd codau lliw ar *Mapio bylchau rhwng gwledydd* i gynrychioli gwerth cynyddol y dangosydd (yn amrywio o'r gwerth isaf i'r gwerth uchaf ar gyfer y pum gwlad). Dylent ddewis lliw ac yna amrywio'r lliwio yn ôl gwerth y dangosydd: po fwyaf yw gwerth y dangosydd, y tywyllaf yw'r lliwio. Yna dylai dysgwyr liwio pob gwlad ar eu map o'r byd i gynrychioli gwerth y dangosydd.
- Mae enghreifftiau o fapiau'r byd wedi'u lliwio yn y modd hwn ar gael ar y wefan *World Bank Open Data* ([data.worldbank.org](http://data.worldbank.org)). Rhowch ddangosydd (er enghraifft hyd oes disgwylidig) ac yna cliciwch ar yr opsiwn *Map uwchben y data*.

### Gwahaniaethu

- *Ei wneud yn haws: Yn lle defnyddio pum arlliw o un lliw, gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio lliw cadarnhaol a lliw negyddol, er enghraifft coch tywyll, coch golau, gwyn, glas golau glas tywyll. Fel arall, gofynnwch iddynt ddefnyddio patrymau gwahanol megis croeslinellu i gynrychioli ystod y gwerthoedd ar gyfer eu dewis ddangosydd.*
- *Ei wneud yn fwy heriol: Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio data o wefan Gapminder a ddefnyddiwyd yng Ngweithgaredd 2.3 ([www.gapminder.org](http://www.gapminder.org)) neu wefan World Bank Open Data ([data.worldbank.org](http://data.worldbank.org)) i liwio'r gwledydd eraill ar eu map o'r byd.*

### Syniad pellach







- Gofynnwch i'r dysgwyr i ymchwilio i ddangosyddion eraill sy'n cael eu defnyddio i fesur pa mor ddatblygedig yw gwlad neu le. Mae ffynonellau data defnyddiol yn cynnwys:
  - [data.worldbank.org](http://data.worldbank.org)
  - [hdr.undp.org/en/data](http://hdr.undp.org/en/data)

### Telerau defnydd

Hawlfraint © Think Global ac Oxfam DU

Gallwch ddefnyddio'r ffotograffau a'r wybodaeth gysylltiedig yn yr adnodd hwn at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Gyda phob defnydd, rhaid i chi roi credyd i'r ffotograffydd a enwir ar gyfer y ddelwedd honno ac Oxfam. Ni chewch ddefnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol neu y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn ymwneud â'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd y gwaith prosiect.

**Ymchwilio i ddangosyddion datblygiad**

<p>CMC y pen (incwm cyfartalog y person bob blwyddyn)</p>  <p>credyd: Sam Tadin</p>	<p>Canran y boblogaeth â mynediad at ddŵr yfed</p>  <p>credyd: Shumon Alam / Oxfam</p>
<p>Hyd oes disgwyliedig adeg geni</p>  <p>credyd: Percy Ramirez / Oxfam</p>	<p>Cyfradd marwolaethau babanod (nifer y plant y 1,000 o enedigaethau sy'n marw cyn eu pen-blwydd cyntaf)</p>  <p>credyd: © Bywydau Ifanc / Pham Viet ANH</p>
<p>Canran y boblogaeth â mynediad at drydan</p>  <p>credyd: Rajendra Shaw / Oxfam</p>	<p>Canran y plant wedi'u cofrestru mewn addysg gynradd</p>
<p>Pa mor gyfartal yw cyfleoedd ar gyfer dynion a menywod (cydraddoldeb rhyw)</p>  <p>credyd: © Bywydau Ifanc / Sarika Gulati</p>	<p>Nifer o feddygon y 1,000 o bobl</p>  <p>credyd: Robin Hammond / Panos</p>
<p>Cyfartaledd allyriadau CO<sub>2</sub> y person</p>  <p>credyd: Tony Webster</p>	<p>Nifer o ddefnyddwyr y Rhynggrwyd</p>  <p>credyd: © Bywydau Ifanc / Pham Viet ANH</p>
<p>Nifer y tanysgrifiadau ffôn symudol</p>  <p>credyd: Caroline Irby</p>	<p>Canran y boblogaeth sy'n byw mewn tldi enbyd (ar lai na US \$1.90 y dydd)</p>  <p>credyd: Tom Pietrasik / Oxfam</p>

## Meddwl am ddatblygiad

- Pa ddangosydd yn eich barn chi yw'r mesur gorau o ddatblygiad a pham?
  
  
  
  
  
  
  
  
  
  
- Pa broblemau ydych chi'n meddwl y gallai godi o ran defnyddio rhai o'r dangosyddion datblygiad hyn?
  
  
  
  
  
  
  
  
  
  
- Pa un yn eich barn chi fyddai orau, defnyddio dim ond un dangosydd datblygiad neu amrywiaeth o rai gwahanol? Pam felly?
  
  
  
  
  
  
  
  
  
  
- A oes unrhyw ffyrdd eraill yr ydych y credu y dylai datblygiad gael ei fesur?



## Dangosyddion gêm Datblygiad

- **CMC y pen (incwm cyfartalog y person)**

Mae'r dangosydd hwn yn fesur o incwm blynyddol cyfartalog pob person mewn gwlad. Mae'n aml yn cael ei fesur mewn US\$. Mae CMC y pen yn cael ei ddefnyddio yn eang i ddisgrifio pa mor ddatblygedig yw gwlad. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r 20fed ganrif, roedd datblygiad yn cael ei fesur o ran CMC y pen yn unig, ond yn fwy diweddar mae pobl wedi dechrau defnyddio amrywiaeth o ddangosyddion eraill (gweler isod). Gan ddefnyddio CMC y pen fel dangosydd, gall gwledydd gael eu dosbarthu fel Gwledydd Incwm Uchel (HICs), Gwledydd Incwm Canol (MICs) neu Wledydd Incwm Isel (LICs).

- **Hyd oed disgwylidig adeg geni**

Dyma'r nifer cyfartalog o flynyddoedd y byddai disgwyl i fabi newydd-anedig mewn gwlad fyw os yw patrymau marwolaethau ar adeg ei eni yn aros yr un fath yn y dyfodol.

- **Mynegai Datblygiad Dynol**

Mae'r Mynegai Datblygiad Dynol (HDI) yn ystyried nifer o wahanol ddangosyddion. Cafodd ei greu yn 1990 pan oedd llawer o bobl yn dechrau herio'r defnydd eang o CMC fel yr unig fesur o ddatblygiad. Rhoddir i wledydd werth rhwng 0 ac 1 yn seiliedig ar eu hyd oes disgwylidig, cyfraddau llythrennedd a chyfoeth y pen. Po uchaf yr HDI y mwyaf datblygedig yw'r wlad.

- **Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella**

Dyma'r ganran o boblogaeth gwlad sydd â mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella. Ffynonellau ddŵr wedi'u gwella yw'r rhai sy'n cael eu gwarchod mewn rhyw ffordd rhag halogiad allanol, megis ddŵr sydd wedi'i bibellu'n uniongyrchol i dai, tapiau cyhoeddus a thyllau turio.

- **Cyfradd marwolaethau babanod**

Dyma nifer y plant y 1,000 o enedigaethau byw mewn gwlad sy'n marw cyn iddynt gyrraedd eu pen-blwydd cyntaf.

- **Blynyddoedd disgwylidig o addysg**

Mae'r dangosydd hwn yn dangos y nifer o flynyddoedd o addysg y gall plentyn o oedran ysgol eu disgwyl yn ystod ei oes mewn gwlad.

- **Allryiadau CO<sub>2</sub> tiriogaethol y pen**

Mae'r dangosydd hwn yn dangos y swm cyfartalog o garbon deuocsid (CO<sub>2</sub>) mewn tunelli a allyrrir bob blwyddyn fesul person mewn gwlad. Mae'r allyriadau tiriogaethol yn cynnwys y rhai sy'n cael eu cynhyrchu o fewn y wlad dan sylw yn unig. Er enghraifft os yw gwlad yn mewnforio ac yn defnyddio cynnyrch o wlad arall ni fydd ei hallyriadau tiriogaethol yn cynnwys allyriadau o weithgynhyrchu'r cynhyrchion hynny yn y wlad arall.




- **Mynediad at drydan**

Dyma ganran o boblogaeth gwlad sydd â mynediad at drydan.

Gêm Datblygiad 1

<p><b>ETHIOPIA</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 64. CMC y pen (US \$): 565 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.435 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 57 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 41 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 8.5 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 0.1 Mynediad at drydan (%): 27</p>	<p><b>INDIA</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 66 CMC y pen (US \$): 1,596 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.586 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 94 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 38 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 11.7 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 1.9 Mynediad at drydan (%): 79</p>	<p><b>PERIW</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 75 CMC y pen (US \$): 6,551 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.737 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 87 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 13 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 13.1 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 2.1 Mynediad at drydan (%): 91</p>	<p><b>FIET-NAM</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 76. CMC y pen (US \$): 2,052 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.638 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 98 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 17 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 11.9 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 1.8 Mynediad at drydan (%): 99 y cant</p>
<p><b>Y DEYRNAS UNEDIG</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 81 CMC y pen (US \$): 45,603 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.892 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 100 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 4 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 26.2 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 7.3 Mynediad at drydan (%): 100</p>	<p><b>BRASIL</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 74 CMC y pen (US \$): 11,385 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.744 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 98 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 15 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 15.2 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 2.4 Mynediad at drydan (%): 100</p>	<p><b>SINGAPORE</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 82 CMC y pen (US \$): 56,287 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.901 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 100 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 2 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 15.4 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 3.2 Mynediad at drydan (%): 100</p>	<p><b>TSIEINA</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 75 CMC y pen (US \$): 7,594 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.719 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 96 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 9 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 12.9 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 7.2 Mynediad at drydan (%): 100</p>

Gêm Datblygiad 2

<p><b>NORWY</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 81 CMC y pen (US \$): 97,363 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.944 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 100 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 2 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 17.6 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 11.5 Mynediad at drydan (%): 100</p>	<p><b>PACISTAN</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 67 CMC y pen (US \$): 1,334 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.537 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 91. Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 66 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 7.7 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 0.9 Mynediad at drydan (%): 94</p>	<p><b>UZBEKISTAN</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 68. CMC y pen (US \$): 2,038 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.661 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 87 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 34 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 11.5 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 3.6 Mynediad at drydan (%): 100</p>	<p><b>NIGERIA</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 52 CMC y pen (US \$): 3,203 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.504 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 69 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 69 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 9.0 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 0.5 Mynediad at drydan (%): 56</p>
<p><b>MECSICO</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 77 CMC y pen (US \$): 10,230 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.756 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 96 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 11 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 12.8 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 3.8 Mynediad at drydan (%): 99</p>	<p><b>YR EIDAL</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 82 CMC y pen (US \$): 34,960 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.872 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 100 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 3 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 16.3 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 5.8 Mynediad at drydan (%): 100</p>	<p><b>DE AFFRICA</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 57 CMC y pen (US \$): 6,478 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.658 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 93 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 34 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 13.1 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 8.5 Mynediad at drydan (%): 85</p>	<p><b>GWER. ISLAMAIDD IRAN</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 74 CMC y pen (US \$): 5,315 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.7492 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 96 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 13 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 15.2 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 7.9 Mynediad at drydan (%): 100</p>

Gêm Datblygiad 3

<p><b>SIERRA LEONE</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 46. CMC y pen (US \$): 775 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.374 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 63 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 87 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 7.5 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 0.1 Mynediad at drydan (%): 14</p>	<p><b>FFEDERASIWN RWSIA</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 71 CMC y pen (US \$): 12,736 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.778 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 97 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 8 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 14.0 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 2.7 Mynediad at drydan (%): 100</p>	<p><b>UNOL DALEITHIAU</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 79 CMC y pen (US \$): 54,6298 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.914 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 99 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 6 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 16.5 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 16.4 Mynediad at drydan (%): 100</p>	<p><b>EMIRADAU ARABAIDD UNEDIG</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 77 CMC y pen (US \$): 44,204 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.827 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 100 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 6 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 13.3 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 19.8 Mynediad at drydan (%): 98</p>
<p><b>CHILE</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 80 CMC y pen (US \$): 14,528 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.822 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 99 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 7 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 15.1 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 5.1 Mynediad at drydan (%): 100</p>	<p><b>BWLGARIA</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 74 CMC y pen (US \$): 7,713 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.777 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 99 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 9 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 14.3 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 5.7 Mynediad at drydan (%): 100</p>	<p><b>NEPAL</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 68 CMC y pen (US \$): 697 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.540 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 92 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 29 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 12.4 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 0.2 Mynediad at drydan (%): 76</p>	<p><b>MONGOLIA</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 68 CMC y pen (US \$): 4,129 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.698 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 64 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 19 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 15.0 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 4.4 Mynediad at drydan (%): 90</p>

Gêm Datblygiad 4

<p><b>AWSTRALIA</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 82 CMC y pen (US \$): 61,887 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.933 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 100 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 3 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 19.9 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 14.6 Mynediad at drydan (%): 100</p>	<p><b>PILIPINAS</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 69 CMC y pen (US \$): 2,871 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.660 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 92 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 22 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 11.3 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 0.9 Mynediad at drydan (%): 88</p>	<p><b>BOLIVIA</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 67 CMC y pen (US \$): 3,236 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.667 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 90 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 31 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 13.2 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 1.7 Mynediad at drydan (%): 91</p>	<p><b>GWER. YEMEN</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 63 CMC y pen (US \$): 1,408 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.500 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 55. Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 34 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 9.2 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 1.0 Mynediad at drydan (%): 48</p>
<p><b>HAITI</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 63 CMC y pen (US \$): 824 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.471 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 58 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 52 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 7.6 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 0.2 Mynediad at drydan (%): 38</p>	<p><b>JAMAICA</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 73 CMC y pen (US \$): 5,290 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.715 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 94 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 14 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 12.5 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 2.6 Mynediad at drydan (%): 93</p>	<p><b>YR ALMAEN</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 81 CMC y pen (US \$): 47,627 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.911 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 100 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 3 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 16.3 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 9.2 Mynediad at drydan (%): 100</p>	<p><b>JAPAN</b></p>  <p>Hyd oes disgwylidig (blynyddoedd): 83 CMC y pen (US \$): 36,194 Mynegai Datblygiad Dynol: 0.890 Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (%): 100 Marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw): 2 Blynyddoedd disgwylidig o addysg: 15.3 Allyriadau CO<sub>2</sub> (tCO<sub>2</sub>/Person/blwyddyn): 9.8 Mynediad at drydan (%): 100</p>

**Bylchau rhwng gwledydd**

Dangosydd	Blwyddyn	Gwlad â'r sgôr isaf	←—————→	Gwlad â'r sgôr uchaf

**Mesur Datblygiad:**

Dangosydd	Ethiopia	India	Periw	Fiet-nam	Y DU
Poblogaeth (miliynau)	97	1,295	31	91	65
Hyd oes disgwylidig adeg geni (blynyddoedd)	64	66	75	76	81
CMC y pen (US\$ cyfredol)	565	1,596	6,551	2,052	45,603
Cyfradd marwolaethau babanod (y 1,000 o enedigaethau byw)	41	38	13	17	4
Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella (% o gyfanswm y boblogaeth)	57	94	87	98	100
Mynediad at gyfleusterau iechydaeth wedi'u gwella (% o gyfanswm y boblogaeth)	28	40	76	78	99
Mynediad at drydan (% o gyfanswm y boblogaeth)	27	79	91	99	100
Tanysgrifiadau ffôn symudol (y 100 o bobl)	32	75	103	147	124
Defnyddwyr y Rhyngrwyd (y 100 o bobl)	3	18	40	48	92
Poblogaeth wledig (% o gyfanswm y boblogaeth)	81	68	22	67	18
Poblogaeth drefol (% o gyfanswm y boblogaeth)	19	32	78	33	82
Cofrestru mewn ysgol gynradd (% o'r grŵp oedran perthnasol)	65	93	92	98	100
Byw mewn tlodi enbyd (% o gyfanswm y boblogaeth)	34	21	4	3	Dim data

Data wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

**Ffynhonnell y data:** World Bank Open Data: [data.worldbank.org](http://data.worldbank.org)

Data a gasglwyd rhwng 2006 a 2015.

## Mesur dangosyddion datblygiad

- **Hyd oes disgwylidig**

Dyma'r nifer cyfartalog o flynyddoedd y mae disgwyl i berson i fyw.

- **Incwm cyfartalog y person (GDP y pen)**

Dyma incwm cyfartalog pob person mewn gwlad. Mae'n aml yn cael ei fesur mewn US\$.

- **Cyfradd marwolaethau babanod**

Dyma'r nifer o blant (y 1000 o enedigaethau byw) sy'n marw cyn iddynt gyrraedd eu pen-blwydd cyntaf.

- **Mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella**

Dyma ganran cyfanswm poblogaeth gwlad sydd â mynediad at ffynhonnell ddŵr wedi'i gwella. Ffynonellau dŵr wedi'u gwella yw'r rhai sy'n cael eu gwarchod mewn rhyw ffordd rhag halogiad allanol, megis dŵr piblinell, tapiau cyhoeddus a thyllau turio.

- **Mynediad at gyfleusterau iechydaeth wedi'u gwella**

Dyma ganran cyfanswm poblogaeth gwlad sydd â mynediad at gyfleusterau iechydaeth wedi'u gwella. Mae cyfleusterau iechydaeth wedi'u gwella yn cynnwys toiledau sy'n fflysio, geudai pwll a thoiledau compostio.

- **Mynediad at drydan**

Dyma ganran cyfanswm poblogaeth gwlad sydd â mynediad at drydan.

- **Tanysgrifiadau ffôn symudol**

Dyma nifer y tanysgrifiadau ffôn symudol y 100 o bobl. Bydd gan rai pobl fwy nag un tanysgrifiad ffôn symudol, fel pobl sy'n tanysgrifio i ffôn ar gyfer defnydd busnes neu rieni sydd â thanysgrifiadau ffôn symudol ar gyfer eu plant.

- **Defnyddwyr y rhyngwrwd**

Dyma nifer defnyddwyr y Rhyngwrwd y 100 o bobl. Mae'r dangosydd yma yn mesur defnydd o'r Rhyngwrwd ymhlith unigolion o ystod oedran penodol yn unig, yn aml y rhai rhwng 16 a 74 oed.

- **Poblogaeth wledig**

Dyma'r ganran o gyfanswm poblogaeth gwlad sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mae gwledig yn cael ei ddefnyddio yn gyffredinol i ddisgrifio ardaloedd llai poblog. Mae gwahanol fathau o ardaloedd gwledig yn dibynnu ar ba mor hygyrch ydynt o ardaloedd trefol. Efallai y bydd rhai ardaloedd gwledig yn agos at ymyl ardal drefol, gallai eraill fod mewn ardal cefn gwlad anghysbell.

- **Poblogaeth drefol**

Y dangosydd hwn yw'r ganran o gyfanswm poblogaeth gwlad sy'n byw mewn ardaloedd trefol. Mae trefol yn cael ei ddefnyddio yn gyffredinol i ddisgrifio ardaloedd mwy poblog, megis trefi a dinasoedd.

- **Cofrestru mewn ysgol gynradd**


Dyma'r ganran o blant oedran ysgol gynradd swyddogol sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol gynradd.

- **Byw mewn tlodi enbyd**

Dyma'r ganran o gyfanswm y boblogaeth gwlad sy'n byw mewn tlodi enbyd. Mae tlodi enbyd yn cael ei ddiffinio fel arfer fel byw ar lai na £1 (neu US\$1.25) y dydd ar gyfer eich holl anghenion.



## Mapio bylchau rhwng gwledydd



Dangosydd	
Gwerth	Lliw

Ffynhonnell: Geographical Associaton [www.geography.org.uk](http://www.geography.org.uk)